**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 443**
**15 Hydref, 2020 - Cyfarfod dros Zoom**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | | |
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd:** | Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| | Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Aelodau Gweithredol:** | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| **Hefyd yn bresennol: Staff S4C:** | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu)* |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid)* |
| | Ruth Meadows | (Pennaeth Strategaeth Digidol a Dadansoddi) – eitem 6 |
| | Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd)* |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| **Hefyd yn bresennol** | Helen Cargill | TIAA – eitem 5 |
| **Ymddiheuriadau** | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |

*** = Yn gadael ar gyfer eitem 5**

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C. Roedd wedi derbyn ymddiheuriadau gan HHE.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau. Atgoffodd pawb i ddatgan eu diddordeb a bod y wybodaeth yn gyfredol. Datganodd RhW ei ddiddordeb yn Ofcom.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran Bwrdd Unedol S4C ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd RhW ei adroddiad ar lafar.

Nododd ei fod wedi gofyn am gyfarfod gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a daeth y cynnig yn ôl i gyfarfod gydag TC David Davies ym mis Tachwedd.

Y diwrnod blaenorol cafodd y Cadeirydd ei gyfweld gan Huw Thomas o'r BBC yn Gymraeg a Saesneg. Bwriedir darlledu'r cyfweliad Cymraeg heno ar raglen Newyddion a fyddai'r stori yn ymddangos ar wefan BBC Cymru a Chymru Fyw.

Roedd bwriad i gynnal digwyddiad arall nos Fercher 21 Hydref gyda Huw Thomas ar ran RTS Cymru, gan geisio ymhelaethu ar y cyfweliad blaenorol. Byddai'n cymryd cwestiynau'n fyw ar wefan RTS.

Roedd hwn yn gyfle i ddechrau ar y broses o gael negeseuon allan o ran Strategaeth 22 a chychwyn y sgwrs gyda'r gynulleidfa. Unwaith bydd y Bwrdd wedi cytuno ac yn hapus gyda'r Strategaeth, dywedodd OE byddai'n bwysig dechrau trafod ac ymgynghori yn gyhoeddus dros y misoedd nesaf.

3. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd OE ei adroddiad misol gan gynnwys y materion isod.

Nodwyd fod trafodaethau am y cyfnod clo posib yn parhau, yn arbennig felly wrth ystyried darllediadau o raglenni chwaraeon. Gobeithir y bydd modd parhau i ddarlledu gemau proffesiynol.

**[Crynodeb:** Ychwanegodd AR ei bod yn teimlo ein bod yn fwy hyderus fod prosesau yn eu lle, o'i gymharu â'r cyfnod clo cyntaf, fydd yn caniatáu i'r sector barhau gyda'u cynyrchiadau o fewn y rheolau arfaethedig.

O ran dramâu, roedd cynyrchiadau megis Bregus a Fflam i fod i ddechrau ffilmio'r wythnos ganlynol. Gobeithir y bydd modd parhau gan fod pob cynyrchiadau bellach yn gallu ymgeisio ar gyfer yswiriant o dan gynllun DCMS er bod rhai agweddau yn wahanol i yswiriant arferol. Doedd dim rheswm i feddwl na all Pobol y Cwm a Rownd a Rownd barhau i ffilmio.

Dywedodd GW byddai'n hollbwysig roi gwybod i'r gynulleidfa am ein cynlluniau. Byddwn yn gwneud hynny drwy gyfathrebu unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau i'r amserlen drwy'r wasg, y sgrin, cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â chyfweliadau gyda OE ac AR.

Nododd OE fod gwersi wedi'u dysgu o'r cyfnod clo blaenorol. Roedd hefyd angen edrych ar bosibiliadau dangos cynnwys newydd ar ddigidol yn gyntaf. Ar y cyfan roedd y stori yn un gadarnhaol o ran sut mae S4C wedi ymateb i'r sefyllfa.

Adroddodd OE fod y pedwerydd sesiwn Facebook Live wedi mynd yn iawn. Awgrymodd SL efallai y gellid cael thema o ran sesiynau yn y dyfodol fel chwaraeon, lle byddai'n cynnig cyfleoedd i bobl wahanol gyfrannu.

Awgrymodd OE y dylen ni trefnu o leiaf un yn y gogledd ac un yn y de bob blwyddyn. Byddai modd ystyried y trefniadau unwaith y bydd y cyfyngiadau presennol yn codi.]

4. **Benthyciad o'r Trysorlys**

**[Crynodeb:** Trafodwyd trefniadau talu'r benthyciad yn ôl i'r Trysorlys.]

Roedd EM yn awyddus hefyd i dderbyn cadarnhad y byddai Adran 33 o ran TAW yn cael eu datrys. Nododd ShW fod y DCMS wedi sôn fod y Ddeddf Cyllid yn mynd i gynnwys y newid ond bod angen cadarnhad ysgrifenedig.

5. **Adroddiad TIAA ar Llywodraethiant y Bwrdd**

Cyflwynodd Helen Cargill yr adroddiad ac fe drafodwyd rhai o'r prif bwyntiau cododd yn ystod yr archwiliad. Nodwyd fod cydweithrediad parod wedi digwydd gydag Aelodau'r Bwrdd gyda phawb yn onest ac agored.

**[Crynodeb:** Nodwyd fod hanfodion y sefydliad yn gywir gyda rolau yn eglur, cyrsiau sefydlu a chofnodion cywir yn cael eu cyflwyno. Nodwyd mai un o'r prif newidiadau i'r sefydliad oedd y newid o Awdurdod i Fwrdd Unedol. Roedd hi'n amlwg fod angen mwy o aelodau ar y Bwrdd, a bod angen mwy o eglurder ynglŷn ag union rôl aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys rôl y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Aelodau eu hunain.

Sicrwydd cyfyngedig oedd wedi'i nodi ar yr adroddiad, ond roedd yna dipyn oedd yn bositif yn yr adroddiad hefyd. Cafwyd derbyniad cadarnhaol i'r ddogfen. Awgrymwyd y dylai'r adroddiad gael ei chyflwyno fel adroddiad ymgynghorol yn hytrach na chyfyngedig.

Nodwyd efallai fod y cyfnod diweddar wedi bod yn anarferol yn y ffaith ein bod wedi bod yn canolbwyntio ar adleoli a nawr cydleoli, yn ogystal â Covid-19.]

Awgrymwyd hefyd y dylai nodyn gael ei roi yn yr adroddiad am y ffordd bositif y mae S4C wedi ymateb i'r argyfwng Covid-19.

Cafwyd trafodaeth am y posibilrwydd o gael Aelodau gydag arbenigedd gwahanol, a cheisio sefydlu beth yn union yw eu harbenigedd i helpu'r Bwrdd. Byddai'n braf hefyd gallu sefydlu cynllun lle mae Aelodau'r Bwrdd yn cael dod i adnabod gweddill aelodau'r staff.

Diolchwyd i HC am yr adroddiad.

6. **Cyflwyniad Ruth Meadows**

Cyflwynodd RM adroddiad am yr adolygiad i mewn i weithgaredd y gynulleidfa ac ymgysylltu. Nodwyd ei bod wedi cynnal cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda staff i geisio darganfod ffyrdd gwell i weithio a chyfathrebu gyda'n cynulleidfa.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion pwysig gan gynnwys:

- Mabwysiadu proses porth (gateway) ar gyfer comisiynu, cyfathrebu a marchnata sydd yn creu dull cyson o ddatblygu ymgyrchai a'i werthuso;
- Creu tîm sy'n cynnwys y comisiynydd, ymchwil a chyfathrebu er mwyn sicrhau trafodaethau cynnar rhwng y timau a'r cyfle i eithafu llwyddiant cynnwys trwy dargedu'r gynulleidfa;
- Ad-drefnu'r adran mewn i ddau grŵp newydd sy'n ffocysu ar Ddigidol a Marchnata a Materion Corfforaethol a'r Wasg;
- Cyfathrebu'r trefniadau newydd gyda'r sector cynhyrchu trwy sesiynau briffio ar y cyd a digwyddiadau sector gyda'r tîm comisiynu;
- Datblygu strategaeth ymgysylltu er mwyn creu'r drafodaeth ynglŷn â'r cyfeiriad newydd a'r gwasanaeth newydd;
- Ail-lansio'r gwasanaeth gyda gweledigaeth, gwasanaethau a brand sydd wedi eu hadnewyddu.

Roedd OE wedi sefydlu Bwrdd Prosiect i fwrw ymlaen gyda'r gwaith

Gofynnodd SL beth fyddai gost y gwaith a dywedodd OE fod hynny'n rhywbeth byddai angen i'r cyfarwyddwr digidol newydd edrych arno gan gynnwys strwythurau, creu is-frandiau ayyb. Roedd angen strategaeth marchnata glir gyda data yn gyrru pob dim.

Nododd OE fod hwn yn brosiect 2-3 mlynedd a bod angen nawr llunio cynllun gwaith. Byddai'n dychwelyd i'r Bwrdd yn y flwyddyn newydd gyda chynllun. Bydd angen i'r holl adrannau weithio gyda'i gilydd ac roedd staff yn frwdfrydig am y newidiadau.

7. **Proses Gwynion**

**[Crynodeb:** Dywedodd OL fod proses cwynion presennol S4C wedi bod mewn lle ers 2013.

Roedd y papur felly yn argymell cyfyngu rôl y Pwyllgor Cwynion/Bwrdd i faterion cydymffurfiaeth/rheoleiddiol, ac nid materion golygyddol gan wneud hynny'n glir ar ein gwefan.

O ran cwynion am raglenni S4C (gan gynnwys rhaglenni ar-alw), roedd y papur yn argymell ychwanegu cwpl o haenau eraill yn y broses. Gyda chwynion am faterion cydymffurfiaeth/rheoleiddiol (heblaw am raglenni), roedd y papur yn argymell ychwanegu un cam arall yn y broses cyn bod yna apêl i'r Pwyllgor Cwynion.]

Penderfynwyd derbyn argymhellion OLl mewn perthynas â'r broses gwynion.

8. **Cofnodion Cyfarfod 17 Medi 2020**

Cyflwynwyd cofnodion o gyfarfod rhif 442 gynhaliwyd ar 17 Medi. Cymeradwywyd y cofnodion fel rhai cywir gan y Bwrdd. Ni thrafodwyd unrhyw faterion oedd yn codi o'r cofnodion.

9. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau**

Nodwyd y gofrestr.

10. **Unrhyw Fater Arall**

Mewn perthynas â thrafodaethau'r Bwrdd y mis nesaf, nodwyd mai Strategaeth 22 bydd prif ffocws y cyfarfod